Global Climate Justice Cymru
Cyfiawnder Hinsawdd Byd-eang Cymru

# Draw the Line: Why Wales Needs Climate Justice at the Heart of 2026

In the lead-up to the Senedd elections in 2026, Wales has a pivotal opportunity. Our communities are already feeling the impacts of climate breakdown, through flooding, rising energy bills, threats to nature, worsening health, and economic instability. At the same time, global inequities in emissions, environmental destruction, and resource extraction mean the people least responsible are suffering the worst harm.

That is the core of **Global Climate Justice Cymru's manifesto briefing**: a call for policies that root climate action in fairness, solidarity, and justice, both here in Wales and globally.

This autumn, three campaigns bring that urgency into sharp focus: **Draw The Line**, a global mobilisation against fossil fuels and inequality; **Make Them Pay**, demanding that the super-rich and polluters foot the bill instead of workers and communities; and the **Week of Action for Peace and Climate Justice,** highlighting the deep connections between war, militarism, social injustice and climate breakdown. Together, these campaigns echo the priorities in our manifesto and set out what the next Welsh Government must do.

## What Wales Must Commit To

**Set legally binding emissions targets (including global consumption emissions).**
It's not enough to reduce emissions locally, Wales must also account for the carbon embedded in imported goods, deforestation, and military emissions.

**Divest from destruction, invest in life.**
Public investments, pensions, and procurement must move away from fossil fuels, deforestation, arms and militarisation, and instead back ethical supply chains, green industries, local food, and nature restoration.

**Fair tax and funding reforms.**
Push the UK Government to shift the burden away from low-income households and make corporations and wealthy actors pay.

**Global solidarity in action.**
Support climate adaptation abroad, strengthen equitable partnerships with frontline communities and Indigenous Peoples, and follow Scotland's lead by contributing to the UN Loss and Damage Fund to directly support communities most affected by climate change.

**Inclusion.**
Ensure young people and marginalised communities are involved in decision-making processes, so that climate policy is both inclusive and just.

**Invest in skills for global citizens**.
Build global citizenship into the public sector by embedding it into workforce training and development; fund empowering education through schools, youth and community programmes on climate justice, peace and anti-racism; and expand international exchanges to foster cultural understanding, peacebuilding, critical thinking and global solidarity.

**Demilitarised climate justice.**
Redirect resources away from war and militarisation towards building social and climate security. Militaries are among the world's biggest polluters, consuming vast resources while fuelling violence and ecological destruction. Wales can lead in demanding that governments reduce military spending and reinvest in real solutions: renewable energy, resilient communities, and peace.

## The Time Is Now

The crises we face, from climate change and the cost of living to biodiversity loss, militarisation and pressures on public health, are deeply interconnected. That's why climate policy cannot be treated in isolation. Building flood resilience protects homes and lives, energy-efficient housing reduces fuel poverty, cleaner air improves health outcomes, and supporting local food systems helps both household budgets and global emissions.

And the injustice is global: while the world's richest states increase military budgets and allow polluters to profit, frontline communities suffer the most. With just four years left to achieve the UN Sustainable Development Goals (SDGs) by 2030, governments everywhere must accelerate action on poverty, health, equality, and climate, yet too often they move in the opposite direction. Wales must be part of the movement that says enough — investing in peace, not war; in life, not destruction. We have tools, values, and a proud history of moral leadership to show what a fairer, more sustainable path can look like.

As the 2026 elections approach, the choice is clear: adopt bold, justice-centred policies that protect people here in Wales and stand in solidarity with people everywhere.

The time to draw the line is now. Let's ensure the next Welsh Government puts global climate justice and peace at the heart of its agenda.

Global Climate Justice Cymru
**Cyfiawnder Hinsawdd Byd-eang Cymru**

# Tynnu'r llinell: Pam Mae Angen Cyfiawnder Hinsawdd ar Gymru wrth Wraidd 2026

Yn y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd yn 2026, mae gan Gymru gyfle hollbwysig. Mae ein cymunedau eisoes yn teimlo effeithiau chwalfa hinsawdd, trwy lifogydd, biliau ynni cynyddol, bygythiadau i natur, gwaethygu iechyd, ac ansefydlogrwydd economaidd. Ar yr un pryd, mae anghydraddoldebau byd-eang mewn allyriadau, dinistrio amgylcheddol, ac echdynnu adnoddau yn golygu bod y bobl leiaf cyfrifol yn dioddef y niwed gwaethaf.

Dyna graidd **briffio maniffesto Cyfiawnder Hinsawdd Byd-Eang Cymru**: galwad am bolisïau sy'n gwreiddio gweithredu hinsawdd mewn tegwch, undod a chyfiawnder, yma yng Nghymru ac yn fyd-eang.

Yr hydref hwn, mae tair ymgyrch yn dod â'r brys hwnnw i ganolbwynt nodedig: '**Draw The Line**', mobileiddiad byd-eang yn erbyn tanwydd ffosil ac anghydraddoldeb; '**Make Them Pay**', gan fynnu bod yr or-gyfoethog a'r llygrwyr yn talu'r bil yn hytrach na gweithwyr a chymunedau; a'r **Wythnos Gweithredu dros Heddwch a Chyfiawnder Hinsawdd (Week of Action for Peace and Climate Justice)**, gan dynnu sylw at y cysylltiadau dwfn rhwng rhyfel, militariaeth, anghyfiawnder cymdeithasol a chwalfa hinsawdd. Gyda'i gilydd, mae'r ymgyrchoedd hyn yn adleisio'r blaenoriaethau yn ein maniffesto ac yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ei wneud.

## Yr hyn y mae'n rhaid i Gymru ymrwymo iddo fe

**Gosod targedau allyriadau sy'n rhwymol yn gyfreithiol (gan gynnwys allyriadau treuliant byd-eang).**
Nid yw'n ddigon i leihau allyriadau yn lleol, rhaid i Gymru hefyd gyfrif am y carbon sydd wedi'i ymgorffori mewn nwyddau wedi'u mewnforio, datgoedwigo, ac allyriadau milwrol.

**Dadfuddsoddi o ddinistr, buddsoddi mewn bywyd.**
Rhaid i fuddsoddiadau cyhoeddus, pensiynau a chaffael symud i ffwrdd o danwydd ffosil, datgoedwigo, arfau a militareiddio, ac yn hytrach cefnogi cadwyni cyflenwi moesegol, diwydiannau gwyrdd, bwyd lleol, ac adfer natur.

**Diwygiadau treth a chyllid teg.**
Gwthio Llywodraeth y DU i symud y baich oddi wrth aelwydydd incwm isel a gwneud i gorfforaethau ac actorion cyfoethog dalu.

**Undod byd-eang ar waith.**
Cefnogi addasu i'r hinsawdd dramor, cryfhau partneriaethau teg gyda chymunedau rheng flaen a Phobloedd Frodorol, a dilyn esiampl yr Alban trwy gyfrannu at Gronfa Colli a Difrod y Cenhedloedd Unedig i gefnogi'n uniongyrchol y cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf gan newid yn yr hinsawdd.

**Cynhwysiad.**
Sicrhau bod pobl ifanc a chymunedau ymylol yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau, fel bod polisi hinsawdd yn gynhwysol ac yn gyfiawn.

**Buddsoddi mewn sgiliau ar gyfer dinasyddion byd-eang.**
Adeiladu dinasyddiaeth fyd-eang yn y sector cyhoeddus trwy ei ymgorffori mewn hyfforddiant a datblygiad gweithlu; cyllido addysg rymusol trwy ysgolion, rhaglenni ieuenctid a chymunedol ar gyfiawnder hinsawdd, heddwch a gwrth-hiliaeth; ac ehangu cyfnewidiadau rhyngwladol i feithrin dealltwriaeth ddiwylliannol, adeiladu heddwch, meddwl beirniadol ac undod byd-eang.

**Cyfiawnder hinsawdd dadfilwroledig.**
Ailgyfeirio adnoddau i ffwrdd o ryfel a militariaeth tuag at adeiladu diogelwch cymdeithasol a hinsawdd. Mae gwasanaethau milwrol ymhlith llygrwyr mwyaf y byd, gan ddefnyddio adnoddau enfawr wrth danio trais a dinistr ecolegol. Gall Cymru arwain wrth fynnu bod llywodraethau yn lleihau gwariant milwrol ac ail-fuddsoddi mewn atebion go iawn: ynni adnewyddadwy, cymunedau gwydn, a heddwch.

# Nawr yw'r Amser

Mae'r argyfyngau rydyn ni'n eu hwynebu, o newid hinsawdd a chostau byw i golli bioamrywiaeth, militariaeth a phwysau ar iechyd y cyhoedd, i gyd yn rhyng-gysylltiedig. Dyna pam na ellir trin polisi hinsawdd ar wahân. Mae adeiladu gwytnwch llifogydd yn amddiffyn cartrefi a bywydau, mae tai ynni-effeithlon yn lleihau tlodi tanwydd, aer glanach yn gwella canlyniadau iechyd, ac mae cefnogi systemau bwyd lleol yn helpu cyllidebau cartrefi ac allyriadau byd-eang.

Ac mae'r anghyfiawnder yn fyd-eang: tra bod gwladwriaethau cyfoethocaf y byd yn cynyddu cyllidebau milwrol ac yn caniatáu i lygrwyr elw, y cymunedau rheng flaen sy'n dioddef fwyaf. Gyda dim ond pedair blynedd ar ôl i gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig (SDGs) erbyn 2030, rhaid i lywodraethau ym mhob man gyflymu gweithredu ar dlodi, iechyd, cydraddoldeb a hinsawdd, ond yn rhy aml maent yn symud i'r cyfeiriad arall. Rhaid i Gymru fod yn rhan o'r mudiad sy'n dweud digon — buddsoddwch mewn heddwch, nid rhyfel; mewn bywyd, nid dinistr. Mae gennym offer, gwerthoedd, a hanes balch o arweinyddiaeth foesol i ddangos sut y gall llwybr tecach, mwy cynaliadwy edrych.

Wrth i etholiadau 2026 agosáu, mae'r dewis yn glir: rhaid mabwysiadu polisïau beiddgar, sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder sy'n amddiffyn pobl yma yng Nghymru a sefyll mewn undod â phobl ym mhob man.

Mae'r amser i dynnu'r llinell nawr. Gadewch i ni sicrhau bod Llywodraeth nesaf Cymru yn rhoi cyfiawnder hinsawdd a heddwch byd-eang wrth wraidd ei hagenda.